Joanne Bowers

Ysgol Sageston

Yr Ardal



Tudalen Cynnwys

3 Maes Dysgu a Phrofiad

4-14 Cyflwyniad a Gweithgareddau

15-23 Tasg 1, Adeiladau Arbennig

24-32 Tasg 2, Teithiau Cymreig

33-39 Tasg 3, Am Dro

40 Croes Caeriw

6 Maes Dysgu a Phrofiad – Fy Ardal

Y Celfyddydau Mynegiannol

Thema: Celf Geltaidd a Chross Caeriw

Ffocws Iaith: Disgrifio celf Geltaidd

Patrwm/Patrymau: Rydw i'n gallu gweld _____ ar y groes.

Geirfa: symbolau, symbol, carreg, cerfiadau cerrig, clymau Celtaidd, patrymau, patrwm, llinell, llinellau, crwn a syth.

Gweithgaredd:

Bydd y plant yn ymweld â Chroes Caeriw. Bydd y plant yn sôn am y groes disgrifio'r groes. Bydd angen iddyn nhw ddisgrifio'r patrymau ar y groes. Bydd y plant yn gweithio mewn parau i dynnu lluniau o'r groes. Wedyn, yn ôl yn yr ysgol, byddan nhw'n defnyddio'r lluniau hyn i'w helpu i greu croes gan ddefnyddio clai.

Iechyd a Lles

Thema: Cyrff Iach

Ffocws Iaith: Mynegi barn

Patrwm/Patrymau: Hoffwn i ___ yng Nghaeriw a Sageston

Geirfa: llwybr beicio, llwybr trimio, siop ffrwythau a llysiau, cwrt tennis

Gweithgaredd:

Yn y gweithgaredd hwn bydd y plant yn trafod sut y gallan nhw gadw eu cyrff yn iach. Bydd y plant yn ymarfer patrwm "Hoffwn i __" i ddweud beth hoffen nhw gael yn Sageston a Chaeriw i'ch helpu i gadw'n iach? Bydd y plant yn chwarae "Sgwrs Gyflym" Bydd y plant yn cerdded o gwmpas y dosbarth yn dweud wrth eich gilydd beth hoffen nhw gael yng Nghaeriw a Sageston.

Dyniaethau

Thema: Adeiladau Arbennig

Ffocws Iaith: Cymharu

Patrwm/Patrymau: Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn _____ na Eglwys Santes Fair

Geirfa: mwy, llai, henach, agosach, prysurach a thawelach.

Gweithgaredd:

Bydd y plant yn dewis dwy frawddeg o'r bwrdd. Wedyn ysgrifennu ein brawddeg ar ddau 'post-it'. Nesaf, bydd y plant yn cerdded o gwmpas y dosbarth. Rhaid iddyn nhw ddarllen un frawddeg o'r bwrdd. Os yw'r partner wedi cael y frawddeg, rhaid iddyn nhw roi'r post-it i'r partner. Ailadroddwch am bum munud gyda wahanol partner. Y plentyn sy'n cael y mwyaf ar ddiwedd y gêm sy'n ennill.

Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu

Thema: Teithiau Cymreig

Ffocws Iaith: Mynegi Barn

Patrwm/Patrymau Yn fy marn i....

Geirfa: hen, hardd, diddorol, pwysig, hanesyddol, anhygoel a gwych

Gweithgaredd:

Bydd y plant yn darllen darn am berson sy'n cwyno am Gastell Caeriw. Bydd y plant yn ymweld â Chastell Caeriw, wedyn byddan nhw'n ysgrifennu adolygiad am Gastell Caeriw i ddweud pam dylai pobl ymweld â'r castell. Rhaid i'r plant ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio'r castell.

Mathemateg a Rhifedd

Thema: Am Dro!

Ffocws Iaith: Cyfarwyddiadau

Patrwm/Patrymau: Rhoi cyfarwyddiadau

Geirfa: cer, yn syth ymlaen, dros y bont, ar hyd y stryd, tro i'r dde, tro i'r chwith, ac ar hyd y stryd.

Gweithgaredd:

Bydd y plant yn defnyddio map o Sageston a Chaeriw. Bydd y plant yn rhoi cyfarwyddiadau i'w partner i symud y cymeriad i rywle yn y pentref.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg -

Thema: Cynefin

Ffocws Iaith: **Baswn i & Taswn i**

Patrwm/Patrymau: Taswn i'n_____ baswn i'n byw ____

Geirfa: alarch, ystlum, tylluan wen, crëyr, cranc, robin goch, glas y dorlan, castell, pwll, coeden a chlawdd

Gweithgaredd:

Bydd y plant yn ysgrifennu am y bywyd gwyllt sy'n byw yng Nghastell Caeriw a Phwll y Felin. Byddan nhw'n ysgrifennu yn y person cyntaf gan ddefnyddio'r patrwm brawddeg *taswn i* a *baswn i*.

Fy Ardal

Cyflwyniad

Mae Ysgol Sageston mewn pentref bach drws nesaf i Gaeriw yn Sir Benfro. Mae rhan fwyaf o blant yn dod o Sageston a Chaeriw ac mae rhai ohonyn nhw'n dod o Benfro a Dinbych-y-Pysgod. Mae Sageston a Chaeriw yn gyfoethog mewn hanes.

Mae Ysgol Sageston yn ffodus iawn i gael Castell Caeriw yn agos at yr ysgol. Rydyn ni'n ymweld â'r castell yn aml. Rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd ar brosiectau yn y gorffennol, er enghraifft tair blynedd yn ôl canodd y plant gân yn y castell. Recordiodd y plant gân "Shwmae Sir Benfro". Roedd y plant wrth eu bodd â hyn. Mae Pwll Melin Caeriw yn ardal hardd, gyda llawer o fywyd gwyllt a fflora. Mae llawer o gyfleoedd dysgu gyda'r ardal leol, ac rydw i'n aml yn mynd â'r plant yno i wneud gweithgareddau amrywiol.

Rydw i wedi mwynhau gwneud y portffolio hwn a chreu'r adnoddau a meddwl am weithgareddau eraill gyda'r plant yng Nghaeriw a Sageston. Mae 'Cynefin' yn rhan fawr o'r cwricwlwm newydd, ac mae'n bwysig i blant ddysgu am eu hardal leol. Hoffais i'r sgwrs gyda Rhian Ashton pan siaradodd hi am 'Traed, Cam a Naid'. Rydw i wedi defnyddio'r syniad hwn yn fy mhortffolio. Hoffwn i gynnwys 'Traed, Cam a Naid' yn fy nghynllunio ar draws y cwricwlwm pan fydda i'n ôl yn yr ysgol.

Rydw i wedi meddwl yn ofalus am y gweithgareddau i gynnwys yn fy mhortffolio. Rydw i eisiau i'r gweithgareddau ddiddori'r plant a'u gwneud yn gyffrous i ddysgu. Pan oeddwn i'n blentyn yn yr ysgol, doedd gwersi Cymraeg ddim yn hwyl. Yn fy marn i, mae rhai plant yn dal i feddwl hyn heddiw. Ers dechrau'r Cwrs Sabothol Gymraeg ces i lawer o hwyl yn dysgu Cymraeg. Rydw i eisiau rhannu hwn gyda'r plant pan fydda i'n mynd yn ôl i'r ysgol. Rydw i eisiau i'r plant fod mor gyffrous â fi i ddysgu Cymraeg. Rydw i'n teimlo'n fwy hyderus i ddysgu Cymraeg a bod yn gyfrifol am Gymraeg ar draws yr ysgol. Rydw i'n teimlo'n gyffrous ac yn hyderus i wella sgiliau Cymraeg ar draws fy ysgol pan fydda i'n mynd yn ôl.

Rydw i wedi mwynhau'r sesiynau methodoleg ar y cwrs. Nawr, rydw i'n meddwl mwy am fethodoleg mewn gwersi iaith. Rydw i'n deall trefn addysgu'r gwahanol sgiliau ar gyfer datblygu iaith, e.e. gwrando yn gyntaf, wedyn siarad, nesa darllen, ac yn olaf ysgrifennu.

Rydw i wedi cynnwys 'Drilio' yn fy ngweithgareddau. Dylai hyn fod ar ddechrau pob iaith. Rydw i'n deall pam mae hyn mor bwysig i ddatblygu geirfa. Pan fydda i'n ôl yn yr ysgol, bydda i'n defnyddio 'Drilio' mewn gwersi Saesneg i ddatblygu geirfa hefyd. Cyn roeddwn i'n dechrau'r

cwrs, doeddwn i ddim yn gwybod sut i addysgu 'Drilio' yn effeithiol. Ond, drwy wylio'r tiwtoriaid ac athrawon eraill, rydw i'n teimlo'n fwy hyderus i addysgu 'Drilio' ac i wneud y sesiynau yn fwy hwyl i'r plant.

Un o fy hoff bethau am y cwrs ydy'r athrawon eraill. Rydw i wedi dysgu cymaint o syniadau gwahanol wrthyn nhw. Rydw i'n gwybod y bydd hyn yn fy ngwneud yn athrawes well. Mae rhai o'r gweithgareddau yn fy mhortffolio wedi'u hysbrydoli gan y tiwtoriaid ar y cwrs, athrawon eraill, Dr Gianfranco Conti, Steve Smith, Clare Seccombe, er enghraifft Pif Paf, Chwap a Lleidr Brawddeg.

Tasg 1

Dyniaethau

Darllen a Siarad



Ces i fy ysbrydoli gan Rhian Ashton i ddefnyddio'r syniad 'Traed, Cam a Naid'. Mae hyn yn ffitio mewn gyda Chynefin, sy'n rhan fawr o'r cwricwlwm newydd.

Mae Ysgol Sageston yn ysgol gymunedol, dim ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Ond, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r eglwys. Mae'r ficer yn ymweld â'r ysgol yn aml, ac mae fy ysgol i'n ymweld â'r eglwys hefyd. Bob blwyddyn, mae Ysgol Sageston yn mynd i Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Mae'r plant yn mwynhau ymweliadau â Thyddewi a'r profiadau yno.

Hoffwn i wneud y gweithgaredd hwn ar ôl i'r plant ddechrau wrth eu "traed" gydag Eglwys y Santes Fair yng Nghaeriw, yna "camu" i Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio ansoddeiriau i gymharu dau le â'i gilydd. Doeddwn i ddim wedi clywed am y gweithgaredd 'Lleidr Brawddeg' cyn y cwrs. Fodd bynnag, rydw i'n credu y bydd hwn yn ddull effeithiol o ddatblygu sgiliau iaith. Bydd y plant wrth eu bodd yn chwarae'r gêm hon hefyd. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i ddatblygu sgiliau darllen y plant. Hefyd, bydd y gweithgaredd hwn yn helpu i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando.

Tasg 2

Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu

Ysgrifennu



Rydw i'n credu bydd y gweithgaredd hwn o ddiddordeb i'r plant achos mae Castell Caeriw yn bwysig i'r plant. Mae'r castell ar ein logo ysgol ni. Rydw i'n meddwl bydd y plant yn mwynhau ysgrifennu am y castell. Ar ôl iddyn nhw orffen y gweithgaredd ysgrifennu maen nhw'n

mwynhau creu fideo. Mae'r dasg hon yn seiliedig ar y wefan "Trip Advisor", ac mae rhywun yn ysgrifennu adolygiad drwg arni hi. Ond yn fy mhecyn rydw i wedi enwi'r wefan "Teithiau Cymreig".

Y ffocws iaith yn y dasg hon ydy "Mynegi Barn". Mae'n bwysig bod y plant yn cael y cyfle i fynegi eu barn, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Ond ar gyfer y gweithgaredd hwn byddan nhw'n defnyddio patrymau brawddegau cadarnhaol. Bydd y plant yn cael cyfle i ddefnyddio patrymau negyddol mewn gwers arall.

Tasg 3

Mathemateg a Rhifedd

Siarad a Gwrando



Rydw i wedi mwynhau creu'r dasg hon. Rydw i'n teimlo'n hyderus bydd y plant yn mwynhau'r dasg hefyd. Ces i fy ysbrydoli i ddefnyddio 'Am Dro' ar S4C. Fodd bynnag, mae fy nhasg yn wahanol achos bydd y plant yn rhoi cyfarwyddiadau i'w partner. Rydw i wedi defnyddio Canva i greu fy map fy hun o Sageston a Chaeriw achos doeddwn i ddim yn gallu ffeindio map ar-lein gyda'r enwau lleoedd yn Gymraeg arno fe. Bydda i'n defnyddio'r gweithgaredd hwn i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando achos bydd y plant yn cymryd tro i ddweud cyfarwyddiadau ac i'w dilyn. Cyn i fi ddechrau'r cwrs ym mis Medi, doeddwn i ddim yn meddwl am wrando fel sgil bwysig. Ond nawr, rydw i'n deall pam mae gwrando'n bwysig achos mae datblygu sgiliau gwrando wrth ddysgu iaith yn helpu i wella ynganiad a dealltwriaeth o eiriau mewn brawddegau.

Tasg 1



Dyniaethau

Sgil: Darllen a siarad

Thema: Adeiladau Arbennig

Nod y wers: Cymharu dau adeilad


Ffocws Iaith: Cymharu

Patrwm/Patrymau: Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n _____ na Eglwys Santes Fair.

Gwybodaeth flaenorol

Cyn y plant dechrau'r thema, dylen nhw fod wedi ymweld ag Eglwys Santes Fair yng Nghaeriw ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn Nhyddewi. Yn fy marn i, bydd y dasg hon yn fwy effeithiol ar ôl i'r plant ymweld â'r eglwys a'r gadeiriol, ond, yn y dosbarth bydd y plant yn defnyddio ffotograffau i helpu iddyn nhw i gofio.

Drilio



I ddechrau'r gweithgaredd mae'n bwysig i ddrilio'r ansoddeiriau. Bydd hyn yn helpu'r plant i ddeall y geiriau. Bydd hyn hefyd yn helpu'r plant i ynganu'r geiriau'n gywir. Gwnes i bŵerbwynt i gyflwyno'r ansoddeiriau. Ond, yn ystod sesiwn drilio, hoffwn i'r athrawon i wneud y sesiwn hwyl. Mae'n bwysig iawn cael hwyl wrth ddysgu. Yn fy marn i, bydd hyn yn helpu'r plant gofio'r ansoddeiriau. Gallai'r athro ddefnyddio lleisiau gwahanol ar gyfer y geiriau gwahanol, fel hyn:

- Mwy - llais uchel fel cawr
- Llai – llais fel babi
- Henach – llais fel hen berson
- Agosach – rhoi dwylo yn agos at ei gilydd
- Prysurach – Esgus cerdded yn gyflym
- Tawelach – llais tawel
- Eglwys Santes Fair - defnyddio bysedd i wneud croes fach
- Eglwys Gadeiriol Tyddewi - defnyddio breichiau i wneud croes fawr

Mae defnyddio lleisiau a gweithredoedd gwahanol yn ffordd ddefnyddiol i helpu plant gofio geiriau newydd. Pan fydd y plant yn hyderus gyda'r ansoddeiriau, ymarferwch ddefnyddio nhw mewn brawddegau. Darllenwch y brawddegau gyda'i gilydd. Ar ôl iddyn nhw orffen sesiwn drilio, cyflwynwch y gweithgaredd "Lleidr Brawddeg" ac esboniwch gyfarwyddiadau i'r plant.

Gweithgaredd

Yn y gêm, bydd y plant yn gweithio mewn parau. Bydd y plant yn dewis dwy frawddeg o'r bwrdd gwyn ac yn ysgrifennu ar y 'post-it'. Chwaraewch 'Craig, Papur, Siswrn' i benderfynu pwy sy'n mynd yn gyntaf. Wedyn, darllenwch y frawddeg. Os ydyn nhw'n dyfalu'r frawddeg gywir, gallan nhw dwyn y 'post it'. Ar ôl iddyn nhw orffen, dewiswch bartner newydd. Ailadroddwch y gweithgaredd. Ar ddiwedd y gêm, y plentyn sydd gyda'r mwyaf o 'post-its' sy'n ennill.



Elfennau Trawsgwricwlaidd

- Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu - datblygu sgiliau iaith Gymraeg (sgiliau siarad, ysgrifennu a darllen)
- Dyniaethau – Hanes (adeiladau hanesyddol), Addysg Grefyddol (adeiladau crefyddol)

Cwestiynau

Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio Eglwys Santes Fair?

Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio Eglwys Gadeiriol Tyddewi?

Allwch chi feddwl am frawddegau newydd i gymharu Eglwys Gadeiriol Tyddewi ac Eglwys Santes Fair?

Beth ydy eich hoff adeilad arbennig? A pham?


Gwahaniaethu

Mae'n anodd gwahaniaethu'r dasg hon achos hoffwn i i'r holl blant gymryd rhan yn y gweithgaredd. Yn fy ngwers, bydda i'n annog y plant i ddarllen y brawddegau. Bydd rhai ohonyn nhw yn well darllenwyr nag eraill, felly os oes angen help ar y plant, gallen nhw helpu ei gilydd neu ofyn i'r athro.

Gwers Nesaf

Yn y wers nesaf, hoffwn i i'r plant ysgrifennu eu brawddegau eu hunain yn cymharu Eglwys Santes Fair ag Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Wedyn, bydd y plant yn 'neidio' i rywle arall yn y byd i ddysgu am adeiladau crefyddol arbennig eraill

Tasg 2



Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu

Sgil: Ysgrifennu

Thema: Teithiau Cymreig

Nod y wers: I ysgrifennu brawddegau perswadiol

Ffocws Iaith: Mynegi Barn

Patrwm/Patrymau: Yn fy marn i, mae Castell Caeriw'n ....

Gwybodaeth flaenorol

Cyn y wers hon dylai'r plant fod yn hyderus gyda'r patrymau 'dylech chi' a 'rhaid i chi'. Byddan nhw'n gwybod rhai o'r ansoddeiriau, ond bydd rhai eraill yn newydd.

Drilio



Yn ystod y sesiwn 'Drilio' ar ddechrau'r wers, bydd y plant yn cael cyflwyno i rai ansoddeiriau newydd, er enghraifft: heddychol, sylfaenol, chwedlonol a godidog. Bydd y plant yn adolygu'r patrymau brawddegau 'Dylech chi' a 'Rhaid i chi' hefyd. Wedyn, bydd y plant yn chwarae 'Chwap!' Bydd hyn yn helpu'r plant i gofio'r eirfa.

Gweithgaredd

Mae'r wers hon yn canolbwyntio ar Gastell Caeriw, sydd wedi derbyn adolygiad drwg ar wefan Teithiau Cymreig. Bydd y plant yn helpu'r castell drwy ysgrifennu adolygiad da, gan ganolbwyntio ar y patrwm brawddeg 'Yn fy marn i' i annog mwy o bobl i ymweld â Chastell Caeriw. Mae'r dasg hon yn helpu i ddatblygu sgiliau ysgrifennu a siarad y plant. Bydda i'n gofyn i'r plant "Beth ydy dy farn di am Gastell Caeriw?" Neu "Beth ydych chi'n feddwl am Gastell Caeriw?" Bydd y plant yn ateb gyda phatrwm "Yn fy marn i mae Castell Caeriw'n …" Cyn i'r plant ysgrifennu eu brawddegau, mae'n bwysig eu bod yn hyderus yn dweud "Yn fy marn i mae Castell Caeriw'n..." Gallai'r plant ddweud pam dylai pobl ymweld â Chastell Caeriw. Os bydd y plant yn fy ysgol yn gwneud y gweithgaredd hwn, bydda i'n siarad â'r rheolwr castell am rannu adolygiadau'r plant ar gyfryngau cymdeithasol.



Elfennau Trawsgwricwlaidd

Mae'r dasg hon yn drawsgwricwlaidd ac yn cysylltu â Dyniaethau a Iechyd a Lles.

- Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu - datblygu sgiliau iaith Gymraeg (ysgrifennu)
- Iechyd a Lles- mynegi barn
- Dyniaethau – dysgu am yr ardal, hanes

Cwestiynau

- Beth ydy dy farn di am Gastell Caeriw?
- Beth ydych chi'n feddwl am Gastell Caeriw?
- Allwch chi ddisgrifio Castell Caeriw?

- Pa ansoddeiriau ydych chi'n gwybod?
- Pam ddylai pobl ymweld â Chastell Caeriw?

Gwahaniaethu

Dyma rai ffyrdd y bydda i'n gwahaniaethu'r gweithgaredd hwn yn fy nosbarth.

1. Model ysgrifennu brawddegau.
2. Defnyddiwch y mat iaith.
3. Plant i ddefnyddio geiriadur i gyfieithu ansoddeiriau eraill.

Gwers Nesaf

Hoffwn i i'r plant creu fideo o'u hadolygiad yn y wers nesaf. Hefyd, mae'r dasg hon yn gysylltiedig â Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a Chelfyddydau Mynegiannol achos hoffwn i i'r plant creu fideo o'u hadolygiad yn y wers nesaf.

Tasg 3



Mathemateg a Rhifedd

Sgil: Siarad a Gwrando  

Thema: Am Dro

Nod y wers: Rhoi cyfarwyddiadau

Ffocws Iaith: Cyfarwyddiadau

Patrwm/Patrymau: Er enghraifft: Tro i'r dde. Cer syth ymlaen.

Gwybodaeth flaenorol

Cyn y wers hon, dylai'r plant fod yn hyderus wrth roi cyfarwyddiadau yn Saesneg. Mae'n bwysig iawn bod y plant yn hyderus gyda'r 'cyfarwyddiadau'. Bydda i'n ymarfer yr iaith hon gyda'r plant am wythnos cyn iddyn nhw weithio mewn parau i roi cyfarwyddiadau.

Drilio

Rydw i wedi creu gêm i 'Drilio' sy'n debyg i'r gêm 'Pif Paf' a 'Bingo'. Fodd bynnag, bydda i'n gofyn y plant roi cownteri ar y geiriau yn lle 'dabio' gyda beiro.






Gweithgaredd

Yn y gweithgaredd hwn, bydd angen i'r plant weithio mewn parau. Byddan nhw'n defnyddio map o Sageston a Chaeriw ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'w partner. Hoffwn i i'r plant ddechrau yn Ysgol Sageston, dewis un lle yn y pentref ar y map, ac yna symud i'r lle hwnnw, er enghraifft, Tŵr Rheoli Caeriw neu Glwb Pêl-droed a Chriced. Rhaid iddyn nhw gymryd eu tro – un plentyn yn rhoi cyfarwyddiadau a'r llall yn eu dilyn – ac yna'n cyfnewid rolau. Mae'n bwysig bod y plant yn cyfnewid rolau, gan y bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu eu sgiliau gwrando a siarad.





Cwestiynau

- Ble wyt ti'n dechrau?
- Ble wyt ti'n mynd?
- Beth fyddi di'n mynd heibio ar y ffordd?
- Ydy dy bartner yn siarad yn glir?
- Wyt ti'n gallu deall dy bartner?

Gwahaniaethu

Tasg Un Seren

Bydd rhai o blant yn defnyddio dasg 'Un Seren' gydag wyth gair. Yn y gweithgaredd hwn, bydd y plant yn gallu rhoi un frawddeg o gyfarwyddiadau i'w partner. Er enghraifft:

Tro i'r dde.

Cer syth ymlaen.

Heibio i'r tai.

Tro i'r chwith.

Cer syth ymlaen.

Tro i'r dde.

Cer syth ymlaen.

Gorffen yn CrossFit.

Tasg Dwy Seren 

Yn y gweithgaredd hwn, hoffwn i rai o'r plant gysylltu eu brawddegau â'i gilydd. Er enghraifft: I ddechrau, tro i'r dde. Cer syth ymlaen a heibio i'r tai. Ar ôl i'r tai, cymera tro cyntaf. Wedyn, cer syth ymlaen. Cyn i'r goleuadau, tro i'r dde, wedyn cer syth ymlaen. Gorffen yn CrossFit.

Elfennau Trawsgwricwlaidd

- Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu - datblygu sgiliau iaith Gymraeg (sgiliau siarad a gwrando).
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg - defnyddio'r rhaglen gyfrifiadurol hon i gofnodi eu cyfarwyddiadau

Gwers Nesaf

Cyn y wers nesaf, bydda i'n llwytho map i fyny i Hwb. Bydd y plant yn rhoi cyfarwyddiadau i'w partner i symud y cymeriad i rywle ar-lein yn y pentref. Rhaid iddyn nhw gymryd eu tro – un yn dweud y cyfarwyddiadau a'r llall yn eu dilyn – ac yna'n cyfnewid rolau.

Gweithgareddau Eraill

Y Celfyddydau Mynegiannol

Bydd y plant yn dysgu am gelf Geltaidd. Rydyn ni lwcus iawn yn Ysgol Sageston achos mae croes Geltaidd o'r 11 ganrif yng Nghaeriw. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, hoffwn i i'r plant ymweld â Chroes Caeriw. Byddan nhw'n dysgu geiriau newydd i ddisgrifio'r groes, megis symbolau, symbol, carreg, cerfiadau cerrig, clymau Celtaidd, patrymau, patrwm, llinell, llinellau, crwn a syth. Bydd y plant yn gweithio mewn parau i dynnu lluniau o'r groes. Wedyn, yn ôl yn yr ysgol, byddan nhw'n defnyddio'r lluniau hyn i'w helpu i greu croes gan ddefnyddio

clai. Rydw i'n meddwl bydd y plant yn mwynhau'r gweithgaredd hwn achos maen nhw'n mwynhau gweithgareddau creadigol fel arfer.

Iechyd a Lles

Rydw i wedi ffeindio'n anodd cynllunio gweithgareddau ar gyfer Iechyd a Lles i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Rydw i wedi treulio mwy o amser meddwl am Iechyd a Lles na phynciau eraill. Rydw i'n gyfrifol am Iechyd a Lles ar draws yr ysgol, felly rydw i'n meddwl pan bydda i yn yr ysgol bob dydd Mercher dylwn i'n cynllunio cyfleoedd ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg yn Iechyd a Lles.

Yn y gweithgaredd hwn bydd y plant yn trafod sut y gallan nhw gadw eu cyrff yn iach. Bydd y plant yn ymarfer patrwm "Hoffwn i __" i ddweud beth hoffen nhw gael yn Sageston a Chaeriw i'ch helpu i gadw'n iach? E.r enghraifft "Hoffwn i gael cwrt tennis yng Nghaeriw" neu "Hoffwn i gael pwll nofio yn Sageston".

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Yn y gweithgaredd hwn bydd y plant yn defnyddio'r patrwm brawddeg "Taswn i'n ___, baswn i'n byw yn ____" er enghraifft " Taswn i'n dylluan wen, baswn i'n byw yn y Castell Caeriw" (mae tylluanod gwynion yn byw yn y castell ar hyn o bryd). Bydd y plant yn gwneud y gweithgaredd hwn ar ôl iddyn nhw ddysgu enwau'r anifeiliaid a'u cynefin.



Adeiladau Arbennig

Traed, Cam a Naid

Gwers Heddiw

Dechreuon ni wrth ein *traed* ac ymwelon ni ag Eglwys Santes Fair. Wedyn, *camon* ni i Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Traed



Cam




Tasg Ddarllen

Nod y wers heddiw ydy cymharu dau adeilad

Meini Prawf Llwyddiant

- ✓ ddarllen yn glir
- ✓ ddeall y geiriau
- ✓ ddweud y geiriau yn gywir



Drilio





Eglwys Gadeiriol Tyddewi



Eglwys Santes Fair



mwy

yn fwy



llai



henach



agosach



prysurach



yn brysurach

tawel



yn dawelach

Lleidr Brawddeg



1.Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n **fwy** nag Eglwys Santes Fair.

2.Mae Eglwys Santes Fair yn **llai** nag Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

3.Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n **henach** nag Eglwys Santes Fair.

4.Mae Eglwys Santes Fair yn **agosach** i Ysgol Sageston nag Eglwys Gadeiriol Tyddewi .



5.Mae Eglwys Gadeiriol Tyddewi'n **brysurach** nag Eglwys Santes Fair

6.Mae Eglwys Santes Fair yn **dawelach** nag Eglwys Gadeiriol Tyddewi

Cyfarwyddiadau

Ysgrifennwch



- Dewiswch ddwy frawddeg o'r bwrdd.
- Ysgrifennwch eich brawddegau ar ddau 'post-it'.

Darllenwch

- Dewiswch bartner
- Chwaraewch 'Craig, Papur, Siswrn' i bederfynu pwy sy'n mynd gyntaf



- Darllenwch un brawddeg

Dwynwch!

- Os ydych chi'n dyfalu'r frawddeg gywir, gallwch chi ddwyn y frawddeg!



Ailadroddwch



- Dewiswch bartner gwahanol
- Chwaraewch 'Craig, Papur, Siswrn' eto
- Ailadroddwch y gweithgaredd



Y plentyn sy'n cael y mwyaf 'post-it' ar ddiwedd y gêm sy'n ennill.



Gwers Nesaf...

Gwers nesaf, byddwn ni'n neidr ac edrych ar fwy o adeiladau arbennig yn y byd.

Traed



Cam



Naid










Eglwys Santes Fair



Eglwys Gadeiriol Tyddewi







Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu






Nod y Wers

I ysgrifennu brawddegau perswadiol


Meini Prawf Llwyddiant

- Defnyddiwch ansoddeiriau
- Defnyddiwch iaith berswadiol
- Cofiwch dreiglo





Drilio



yn heddychol

yn hanesyddol

yn chwedlonol

yn ddiddorol

yn ardderchog

yn _odidog



Drilio

Yn fy marn i ...



Drilio

Mae Castell Caeriw'n ...

Cyflawniad

O na! Mae gan Gastell Caeriw broblem fawr – mae rhywun wedi ysgrifennu adolygiad negyddol am y castell. Allwch chi ysgrifennu adolygiad cadarnhaol i annog mwy o bobl i ymweld?

TEITHIAU CYMREIG

Castell Caeriw



Castell Caeriw, Caeriw, Sir Benfro, Cymru, SA70 8SL

Ffôn – 01646 651782

E-bost – castellcaeriw@cymru.co.uk

★☆☆☆☆

1.2.25

Peidiwch â mynd!

Yn fy marn i, ddylech chi ddim dod i Gastell Caeriw achos mae'r castell yn hen ac yn diflas iawn!

Mat Iaith - Yn fy marn i...

Brawddegau Defnyddiol

Yn fy marn i ...

Mae Castell Caeriw'n ...

Rhaid i chi ymweld â Chastell Caeriw

Dylech chi ddod i Gastell Caeriw



Pa frawddegau eraill allwch chi defnyddio?

Ansoddeiriau




Cofiwch, mae ansoddeiriau'n treiglo'n feddal ar ôl "yn"

yn heddychol
yn fendigedig
yn hanesyddol
yn pwysig
yn hardd
yn _wych

yn _odidog
yn fawr
yn ddiddorol
yn chwedlonol
yn hen
yn ardderchog

Gwers Nesaf



Byddwch chi'n gwneud fideo perswadiol o'ch barn am Gastell Caeriw.



TEITHIAU CYMREIG

Castell Caeriw



Castell Caeriw, Caeriw, Sir Benfro, Cymru, SA70 8SL

Ffôn - 01646 651782

E-bost - castellcaeriw@cymru.co.uk

★☆☆☆☆

1.2.25

Peidiwch â mynd!

Yn fy marn i, ddylech chi ddim dod i Gastell Caeriw achos mae'r castell yn hen ac yn diflas iawn!

Mathemateg a Rhifedd




Tasg Wrando a Siarad

Nod y wers heddiw ydy rhoi cyfarwyddiadau

Meini Prawf Llwyddiant

- ✔ Gwrandewch yn ofalus
- ✔ Siaradwch yn glir
- ✔ Dilynwch cyfarwyddiadau



Cyfarwyddiadau



Rhaid i chi wrando'n ofalus, pan fyddwch chi'n clywed y gair, rhowch gownter arno fe.

dros y bont	syth ymlaen	tro i'r chwith	heibio i'r ...
tro i'r dde	cymera	cer	croesa'r ffordd

Cyfarwyddiadau



Rhaid i chi wrando'n ofalus, pan fyddwch chi'n clywed y gair, rhowch gownter arno fe.

dros y bont	syth ymlaen	tro i'r chwith	tro nesa
tro i'r dde	heibio i'r...	cer	at y goleuadau
cymera'r tro cynta	ar hyd y styd	i fyny'r heol	cymera'r ail dro

i ddechrau, wedyn, ar ôl, cyn

Gweithgaredd

- Gweithiwch mewn parau
- Edrychwch ar y map
- Dechreuwch **ar** Ysgol Sageston
- Dewiswch un lle ar y map
- Rhowch gyfarwyddiadau i'ch partner
- Cymerwch dro i roi cyfarwyddiadau

Er enghraifft

- Castell Caeriw
- Melin Heli Caeriw
- Tŵr Rheoli Caeriw
- Parc
- Neuadd Y Pentref
- CrossFit
- Tafarn
- Capel Wesley
- Eglwys Santes Fair
- Clwb Pêl-Droed a Chriced

Caeriw a Sageston



Gwers Nesaf

Yn y wers nesaf, byddwn ni'n ysgrifennu brawddegau yn cymharu Eglwys Santes Fair ag Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Wedyn,byddwn ni'n 'neidio' i rywle arall yn y byd i ddysgu am adeiladau crefyddol arbennig eraill.



